Newyddion gan Cymwysterau Cymru – Ionawr 2019

News from Qualifications Wales – January 2019

Opportunities with Qualifications Wales: closing date – 25/01/19

Reminder: **Friday 25 January** is the closing date for two roles with Qualifications Wales: we're looking for two new members of our Board, and a Strategic Policy Assistant.

Exam fees and services in Wales: independent report published

Are exam fees in Wales comparable with the rest of the UK? This is one of the questions considered by an independent report commissioned by Qualifications Wales. The research was undertaken by London Economics Cymru using data from the past eight years to look at how WJEC's services and fees for GCSEs and A levels compare to those of other exam boards.

Curriculum reform

We are currently developing our approach to the design of the qualifications that will complement the new curriculum for Wales. You can find further information about curriculum reform in Wales, together with a presentation outlining this approach and the timeline for the new qualifications, on our website.

Welsh Baccalaureate

Last year we published an independent review of the Welsh Bacc Skills Challenge Certificate. The review made recommendations for how the delivery and design of these qualifications could be improved. In this blog we give a quick roundup of progess to date and our plan for the months ahead.

Resources to help you explain the Bacc to learners and their parents/guardians, including a video and downloadable information postcards, can be found on our website.

Engineering, Advanced Manufacturing and Energy qualifications in Wales – a call for teachers and assessors

We are undertaking a review of qualifications taken by learners in Wales in the Engineering, Advanced Manufacturing and Energy sector.

We need your help identifying whether the current qualifications for 16-19 year olds in Wales are fit for purpose, as well as what they should look like in the future. We will be contacting learning providers shortly to speak with teachers and assessors about their experiences in delivering these qualifications. If you are interested in being involved in the review and sharing your thoughts, please contact us at engineeringreview@QualificationsWales.org

Winter exam series results overview

We have published our overview of the November exam series, which included opportunities in GCSE English Language, GCSE Welsh Language, GCSE Mathematics – Numeracy and GCSE Mathematics. You can read more here.

GCSE Built Environment Development

As part of our work in developing approval criteria for a new GCSE Built Environment qualification, we are seeking teachers' feedback on some of our current proposals. If you would be interested in helping us, please email us at development@qualificationswales.org.

Essential Skills

Guidance

We have now published the guidance for centres to develop their own Essential Skills controlled tasks. You can find the guidance on our website.

Workshops

In January and February, we are holding Essential Skills workshops, which will give centres an overview of the process for developing their own controlled tasks. There are still places available; to book, please use the links on the events page of our website.

Research activities

The Qualifications Wales research team are seeking teacher input for a number of projects:

Non-examination assessment

Thank you to those of you who have already signed up to attend one of our Non-Examination Assessment (NEA) focus groups. There are still places available in events across Wales, so if you have views on the NEAs in your subject area and you would like the chance to tell us what you think, sign up here.

Mathematics survey

Our survey of Maths teachers aims to explore teachers' views with regards to design, tiering, content, manageability and examination entry approaches for the reformed GCSE in Mathematics and Mathematics Numeracy and in the Level 2 Certificate in Additional Maths. If you teach Maths and would like to have your say, please click here to complete the survey.

Assessment and curriculum experts

We are seeking a small group of assessment and curriculum experts to advise us on the new GCSE qualifications that will be introduced following reform to the curriculum in Wales. This is an exciting opportunity to help shape future GCSE qualifications in Wales. Further information can be found on our website.

Cyfleoedd gyda Cymwysterau Cymru: dyddiad cau – 25/01/19

Nodyn i'ch atgoffa mai **25/01/19** yw'r dyddiad cau ar gyfer dwy rôl: rydym yn chwilio am ddau aelod newydd o'n Bwrdd a Chynorthwy-ydd Polisi Strategol.

Ffioedd a gwasanaethau arholiadau yng Nghymru: adroddiad annibynnol yn cael ei gyhoeddi

Ydy ffioedd arholiadau yn gyfartal â gweddill y DU? Dyma un o'r cwestiynau a ystyriwyd mewn adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan Cymwysterau Cymru. Ymgymerwyd â'r ymchwil gan London Economics Cymru, gan ddefnyddio data o'r wyth mlynedd diwethaf i edrych ar sut y mae ffioedd ar gyfer arholiadau TGAU a Safon Uwch yn cymharu â ffioedd byrddau arholi eraill.

Diwygio'r cwricwlwm

Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n datblygu ein dull o ddylunio'r cymwysterau a fydd yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd i Gymru. Gallwch weld gwybodaeth bellach am ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru, gan gynnwys cyflwyniad sy'n amlinellu'r dull hwn a'r amserlen ar gyfer y cymwysterau newydd, ar ein gwefan.

Bagloriaeth Cymru

Y llynedd, gwnaethom gyhoeddi adolygiad annibynnol o Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru. Roedd yr adolygiad wedi gwneud argymhellion ar sut y gellid gwella'r ffordd y caiff y cymwysterau hyn eu cyflwyno a'u dylunio. Yn y blog hwn, rydym yn crynhoi'r cynnydd erbyn hyn, a'n cynllun ar gyfer y misoedd i ddod.
Ceir adnoddau i'ch helpu i esbonio'r Fagloriaeth i ddysgwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid, gan gynnwys fideo a chardiau post gwybodaeth y gellir eu lawrlwytho, ar ein gwefan.

Galwad am athrawon ac aseswyr cymwysterau Peirianneg, Uwchgynhyrchu ac Ynni yng Nghymru

Rydym yn cynnal adolygiad o gymwysterau a astudir gan ddysgwyr yng Nghymru yn y sector Peirianneg, Uwchgynhyrchu ac Ynni. Mae angen eich help arnom i ganfod a yw'r cymwysterau presennol ar gyfer myfyrwyr 16 i 19 oed yn addas at eu diben, a sut y dylen nhw gael eu datblygu ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn cysylltu â darparwyr dysgu cyn bo hir i siarad ag athrawon ac aseswyr am eu profiadau wrth gyflwyno'r cymwysterau hyn. Os oes diddordeb gennych mewn cymryd rhan yn yr adolygiad a rhannu'ch syniadau, cysylltwch â ni yn adolygiadpeirianneg@cymwysteraucymru.org

Trosolwg o ganlyniadau cyfres arholiadau'r Gaeaf

Rydym wedi cyhoeddi ein trosolwg o ganlyniadau cyfres arholiadau mis Tachwedd, a fu'n cynnwys cyfleoedd i fyfyrwyr sefyll TGAU Saesneg Iaith, TGAU Cymraeg Iaith, TGAU Mathemateg-Rhifedd a TGAU Mathemateg. Gallwch ddarllen rhagor yma.

Datblygu TGAU yn yr Amgylchedd Adeiledig

Fel rhan o'n gwaith i ddatblygu meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymhwyster TGAU yn yr Amgylchedd Adeiledig newydd, rydym yn awyddus i gael adborth athrawon ar rai o'n cynigion presennol. Os byddai diddordeb gennych, e-bostiwch ni yn datblygu@cymwysteraucymru.org

Sgiliau Hanfodol

Canllawiau
Rydym bellach wedi cyhoeddi'r canllawiau i helpu canolfannau i ddatblygu eu tasgau Sgiliau Hanfodol dan reolaeth eu hunain. Gallwch weld y canllawiau ar ein gwefan yma.

Gweithdai
Ym mis Ionawr a mis Chwefror, rydym yn cynnal gweithdai Sgiliau Hanfodol a fydd yn rhoi trosolwg i ganolfannau o'r broses ar gyfer datblygu eu tasgau dan reolaeth eu hunain. Mae lleoedd ar gael o hyd; i archebu lle, defnyddiwch y dolenni ar y dudalen digwyddiadau ar ein gwefan.

Gweithgareddau ymchwil

Mae tîm ymchwil Cymwysterau Cymru yn gofyn am fewnbwn athrawon ar gyfer nifer o brosiectau:

Asesiadau di-arholiad
Diolch i'r rheiny sydd eisoes wedi cofrestru i ddod i un o'n grwpiau ffocws Asesiadau Di-Arholiad (NEA). Mae dal lleoedd ar gael mewn digwyddiadau ledled Cymru, felly os oes gennych farn am yr Asesiadau Di-Arholiad yn eich maes pwnc chi, a hoffech chi gael y cyfle i ddweud wrthym beth ydych yn ei feddwl, ewch yma i gofrestru.

Arolwg Mathemateg
Nod ein harolwg o athrawon Mathemateg yw archwilio barn athrawon ynglŷn â dulliau cynllunio, haenu, cynnwys, hydrinedd a mynediad ar gyfer y cymhwyster TGAU diwygiedig mewn Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd ac yn Nhystysgrif Lefel 2 mewn Mathemateg Ychwanegol. Os ydych yn addysgu Mathemateg a hoffech chi gael dweud eich dweud, cliciwch yma i lenwi'r arolwg.

Arbenigwyr cwricwlwm ac asesu

Rydym yn chwilio am grŵp bach o arbenigwyr asesu a chwricwlwm i roi cyngor i ni ar y cymwysterau TGAU newyd a fydd yn cael eu cyflwyno yn dilyn diwygiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru. Dyma gyfle cyffrous i helpu i lywio cymwysterau TGAU yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

To subscribe to our mailing list for the Slate, please click **here.**

I danysgrifio i'n rhestr bost ar gyfer Y Llechen, cliciwch **yma.**